Mae'r ymateb yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This response is also available in English.

OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:**
**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:**
**canllawiau statudol ar safonau ymddygiad**

Rydym yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Ein rôl**

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rydym yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn ein hawdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Gallwn ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd inni o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn ein caniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

**Sylwadau cyffredinol**

Cefnogwn y dyletswyddau a’r canllawiau ychwanegol mewn perthynas ag Arweinwyr Grŵp a Phwyllgorau Safonau.
Credwn fod y Canllawiau arfaethedig yn glir ac y byddant yn ganllaw defnyddiol i Arweinwyr Grŵp, Pwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro.

Croesawn yn arbennig yr eglurhad ynghylch pa gamau y gallai’r Arweinwyr Grŵp eu cymryd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau’r grŵp; yn ogystal â’r hyn a fyddai’n cael ei ystyried yn gwynion lefel isel maleisus neu flinderus (Pennod 2).

Rydym yn falch bod y canllawiau yn datgan y byddai’n ‘arfer da’ i’r Pwyllgorau Safonau rannu eu hadroddiad blynyddol gyda ni. Bydd hyn yn ein helpu i gadw trosolwg o safonau ymddygiad mewn democratiaeth leol yng Nghymru.

Cefnogwn y defnydd o ddatrysiad lleol ar gyfer cwynion lefel isel, yn enwedig cwynion rhwng aelodau.  Bydd hyn yn atal y cwynion hyn rhag cael eu trosglwyddo i ni ac yn caniatáu i ni ganolbwyntio ein hadnoddau ar ymchwilio i'r cwynion mwyaf difrifol lle mae gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Felly, rydym yn falch bod Pennod 4 o'r canllawiau yn annog y Pwyllgorau Safonau i adrodd yn eu hadroddiadau blynyddol ar nifer yr achosion a ystyriwyd o dan brosesau datrys lleol. Nid yw’r data hwn ar gael ar hyn o bryd a chredwn y bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn perthynas â’r sector Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned, o gofio bod rhai cynghorau’n dewis peidio ag ymuno â’r corff cynrychioliadol, Un Llais Cymru.

**Awgrymiadau**

Sylwn nad yw'r canllawiau yn cyfeirio at rôl yr Arweinwyr Grwpiau yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd.  Yn wyneb y bwriad i ehangu'r fframwaith safonau moesegol i gynnwys y Pwyllgorau newydd hyn, ystyriwn y dylid cyfeirio rhywfaint at rôl yr Arweinwyr Grwpiau o ran cefnogi safonau ymddygiad da o fewn y cyrff hynny hefyd – yn ogystal ag o fewn partneriaethau strategol eraill, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn ogystal, rydym wedi sefydlu adran newydd ar ein gwefan yn ddiweddar sy’n cynnwys adnoddau ar gyfer aelodau etholedig (https://www.ombwdsmon.cymru/gwybodaeth-ar-gyfer-aelodau-etholedig/). Byddem yn ddiolchgar pe bai modd diwygio'r ddolen i'n gwefan ym Mhennod 2 o'r canllawiau yn unol â hynny.

**Sylwadau cloi**

Unwaith y bydd y canllawiau wedi'u cyflwyno, byddwn yn diwygio ein canllawiau statudol ein hunain i aelodau etholedig, yn unol â hynny.

Edrychwn ymlaen at gefnogi Arweinwyr Grwpiau a Phwyllgorau Safonau i ddefnyddio’r pwerau newydd hyn i wella safonau ymddygiad mewn democratiaeth leol yng Nghymru.

Hyderwn y bydd ein sylwadau yn ddefnyddiol i chi.  Os hoffech drafod ein sylwadau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, ein Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Mai 2022**